

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

**Aseiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y
Cymoedd**

Aseiad Llesiant Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili

CHWEFROR 2022

Cynnwys

1	Crynodeb gweithredol	3
2	Disgrifiad o Ddwyrain Canol y Cymoedd	4
3	Ynghylch Dwyrain Canol y Cymoedd	5
4	Llesiant cymdeithasol	6
4.1	Ynghylch y gymuned	6
4.2	Mynd o gwmpas	7
4.3	Mynediad at wasanaethau	9
4.4	Trosedd a diogelwch cymunedol	9
4.5	Amddifadedd	10
4.6	Iechyd	14
4.7	Tai ac aelwydydd	15
5	Llesiant economaidd	17
5.1	Addysg	17
5.2	Gwaith a sgiliau	17
6	Llesiant amgylcheddol	20
7	Llesiant diwylliannol	22
8	Yr hyn y mae ein trigolion wedi'i ddweud wrthym	25
	Cyfeiriadau	27

1 Crynodeb gweithredol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r asedau a'r heriau allweddol a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn ar gyfer Dwyrain Canol y Cymoedd.

Asedau

Mae cysylltiadau ffordd o Ddwyrain Canol y Cymoedd i Gaerffili, Caerdydd a Chasnewydd yn dda iawn. Mae rheilffordd Cwm Ebwy yn rhedeg drwy'r ardal gymunedol gyda gwasanaeth bob awr i Gaerdydd, a gwasanaeth bob awr o Crosskeys i Gasnewydd. Bydd gwaith seilwaith parhaus yn ymestyn y gwasanaeth hwn i gynnwys yr ardal gymunedol gyfan. Mae gwasanaethau bws rheolaidd rhwng Coed Duon a threfi eraill fel Tredegar, Bargod ac Ystrad Mynach, yn ogystal â gwasanaethau i bentrefi llai o fewn yr ardal gymunedol.

Mae mynediad da i fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y Coed Duon, ynghyd ag ystod o siopau cenedlaethol ac annibynnol. Mae yna hefyd wasanaethau eraill megis ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar draws yr ardal gymunedol.

Bu datblygiadau sylweddol gan adeiladwyr tai mawr yn y blynyddoedd diwethaf ac mae galw yn y farchnad am ddatblygiadau newydd. Fodd bynnag, mae dwysedd poblogaeth yr ardal gymunedol yn sylweddol uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol.

Ychydig iawn o ardaloedd yn yr ardal gymunedol sy'n cael eu hystyried fel y rhai mwyaf difreintiedig, gyda dim ond Argoed 1, Cefn Forest 1 a Chrymlyn 3 yn ymddangos yn y parth Addysg a Choed Duon 4, Pengam 2 a Phontllan-fraith 3 yn y parth Diogelwch Cymunedol.

Pwll Pen-y-fan yw un o'r cronfeydd bwydo camlas olaf sydd ar ôl yng Nghymru ac mae'n cynnig mannau gwyrdd hygrych i drigolion lleol. Mae Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn ofod celfyddydau perfformio proffesiynol ac mae hefyd yn adeilad nodedig yng nghanol tref Coed Duon. Mae'r adeilad yn cynnal cannoedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfranogol ac mae wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae trigolion lleol wedi dweud wrthym eu bod yn byw mewn cymunedau clos sydd wedi cyd-dynnu i helpu ei gilydd yn ystod pandemig Covid-19. Maent yn gwerthfawrogi'r ystod eang o gyfleusterau sydd ar gael iddynt, sydd wedi bod hyd yn oed yn fwy amlwg yn ystod y pandemig.

Heriau

Coed Duon yw'r unig brif dref yn y Fwrdeistref Sirol nad yw wedi'i lleoli ar linell rheilffordd, sy'n golygu ei bod yn dioddef o'i chymharu â threfi eraill o ran mynediad i Gaerdydd a Chasnewydd. Oherwydd topograffeg ardal canol y cymoedd, mae'n anodd iawn teithio o ddwyrain i orllewin y Fwrdeistref Sirol ar gludiant cyhoeddus, gan roi trigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hyn dan anfantais o ran cael mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau.

Mae problem sylweddol gyda mynediad at gyflymder band eang digonol yn Nhrecelyn 2 yn arbennig.

Mae gan y mwyafrif o'r ardal gymunedol lefelau uwch o droseddau difrod troseddol a byrgleriaeth na chyfartaledd Cymru.

Mae gan rai wardiau gyfraddau marwolaeth a marwolaethau cynamserol sylweddol uwch na chyfartaleddau'r Fwrdeistref Sirol a Chymru. Mae'r ffigurau ar gyfer disgwyliad oes iach yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru yn y mwyafrif o wardiau yn yr ardal gymunedol ar gyfer dynion, a bron pob ward ar gyfer menywod.

Mae amrywiaeth eang yn y gymhareb prisiau tai i incwm ar draws yr ardal gymunedol, sy'n ei gwneud yn anodd i bobl sengl a phrynwyr tro cyntaf fynd ar yr ysgol eiddo.

Mae trigolion lleol wedi dweud wrthym nad oes digon o weithgareddau ar gyfer pob grŵp oedran. Dywedodd trigolion hefyd fod angen lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, trwy gynyddu goleuadau stryd a phresenoldeb yr heddlu. Gofynnwyd hefyd i wasanaethau cyhoeddus ymgysylltu'n fwy rheolaidd ar lefel gymunedol a chaniatáu cyfathrebu dwy ffordd.

2 Disgrifiad o Dwyrain Canol y Cymoedd

Mae ardal gymunedol **Dwyrain Canol y Cymoedd** yn cynnwys wardiau **Argoed, Coed Duon, Cefn Fforest, Crymlyn, Trecelyn, Pengam, Penmaen a Phontllan-fraith**. Nodweddir yr ardal gan bentrefi gwledig bach i'r gogledd ac ardaloedd preswyl mwy i'r de. Prif dref yr ardal yw Coed Duon, gyda chanolfan leol yn Nhrecelyn.

Coed Duon yw'r brif dref yn yr ardaloedd cymunedol a dyma leoliad Sefydliad y Glowyr Coed Duon, sy'n gwasanaethu fel canolfan celfyddydau perfformio rhanbarthol, a Theatr Fach Coed Duon, sy'n theatr gymunedol leol. Mae'r dref yn gartref i nifer cynyddol o gwmnïau diwydiannol ysgafn ac uwch-dechnoleg a dyma dref enedigol y band roc dylanwadol y Manic Street Preachers.

Mae **Trecelyn** yn Ganolfan Leol sy'n cynnwys Adeilad Sefydliad a Neuadd Goffa Trecelyn sy'n darparu amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol. Mae'r adeilad yn cynnwys hen adeilad y Sefydliad (a agorodd yn 1908 fel cofeb i'r glowyr a'i hadeiladodd) a'r Neuadd Goffa gyfagos (a adeiladwyd yn 1924 fel cofeb i'r milwyr lleol a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf). Cwblhawyd pont dros Afon Ebwy sy'n cysylltu safle'r ysgol a'r ganolfan hamdden â gweddill y ganolfan leol ar gost o dros £3 miliwn ac fe'i hagorwyd gan Joe Calzaghe a'i dad Enzo Calzaghe ym mis Tachwedd 2009.



Mae'r ardal gymunedol yn cynnwys cymoedd ac ucheldiroedd cyfagos afonydd Ebwy a Sirhywi ac mae'n darparu tirwedd nodedig a deniadol. Mae dros 70% o'r ardal yn agored ac yn cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae Pwll Pen-y-fan yn barc gwledig ac mae'n un o'r ardaloedd bwydo camlesi olaf sydd ar ôl yng Nghymru, gan ddarparu cyfleuster hamdden poblogaidd.

Ffigur 1: Sefydliad y Glowyr Coed Duon

Ffigur 2: Pont Joe Calzaghe, Trecelyn

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

3 Ynghylch Dwyrain Canol y Cymoedd

Ardal	56.8 km ² – tua 20.4% o gyfanswm arwynebedd Bwrdeistref Sirol Caerffili sef 278km ² .																		
Poblogaeth 	Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn 45,849 – tua 25.2% o gyfanswm y boblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef 181,731 ¹ .																		
Dwysedd poblogaeth	Dwysedd y boblogaeth yw 8.07 o bobl yr hectar, gydag ACEHI Pontllan-fraith 1, Penmaen 1 a Chefn Fforest 1 â'r poblogaethau uchaf. Mae 6.53 o bobl yr hectar ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ² .																		
Anheddau 	Y cyfrif anheddau yw 19,911 – tua 24.8% o gyfanswm nifer yr anheddau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar 80,149 ³ .																		
Cyffredinol	Mae Dwyrain Canol y Cymoedd yn cynnwys 6 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHG), sy'n cynnwys 28 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Wrth edrych ar ardaloedd daearyddol llai, gallwn weld unrhyw wahaniaethau a all effeithio ar les.																		
	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <thead> <tr style="background-color: black; color: white;"> <th style="text-align: left;">ACEHI</th> <th style="text-align: left;">ACEHG</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Argoed 1 a 2</td> <td>Caerffili 005</td> </tr> <tr> <td>Coed Duon 1 - 5</td> <td>Caerffili 006</td> </tr> <tr> <td>Cefn Fforest 1 & 2</td> <td>Caerffili 007</td> </tr> <tr> <td>Crymlyn 1 - 4</td> <td>Caerffili 009</td> </tr> <tr> <td>Trecelyn 1 - 4</td> <td>Caerffili 010</td> </tr> <tr> <td>Pengam 1, 2 a 3</td> <td>Caerffili 011</td> </tr> <tr> <td>Penmaen 1, 2 a 3</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Pontllan-fraith 1 – 5</td> <td></td> </tr> </tbody> </table>	ACEHI	ACEHG	Argoed 1 a 2	Caerffili 005	Coed Duon 1 - 5	Caerffili 006	Cefn Fforest 1 & 2	Caerffili 007	Crymlyn 1 - 4	Caerffili 009	Trecelyn 1 - 4	Caerffili 010	Pengam 1, 2 a 3	Caerffili 011	Penmaen 1, 2 a 3		Pontllan-fraith 1 – 5	
ACEHI	ACEHG																		
Argoed 1 a 2	Caerffili 005																		
Coed Duon 1 - 5	Caerffili 006																		
Cefn Fforest 1 & 2	Caerffili 007																		
Crymlyn 1 - 4	Caerffili 009																		
Trecelyn 1 - 4	Caerffili 010																		
Pengam 1, 2 a 3	Caerffili 011																		
Penmaen 1, 2 a 3																			
Pontllan-fraith 1 – 5																			

Allwedd:

[Linell Las](#) – ffin ACEHI

[Linell Goch](#) – ffin ACEHG

Ffigur 3: Map o Ddwyrain Canol y Cymoedd

4 Llesiant cymdeithasol

4.1 Ynghylch y gymuned

Yn gyffredinol, cynyddodd poblogaeth amcangyfrifedig Dwyrain Canol y Cymoedd o tua 583 o drigolion, o 45,266 yng Nghyfrifiad 2011 i 45,849 yn 2020 (+1.3%), o'i gymharu â chynnydd o 3.5% yng Nghymru gyfan. Gwelodd 17 o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd gynnydd yn eu poblogaeth dros y cyfnod hwn, gyda'r cynnydd mwyaf ym Mhenmaen 1 (cynnydd o 13.3% neu 246 o bobl). Gwelodd yr 11 ACEHI arall ostyngiad yn eu poblogaeth dros y cyfnod amser, gyda'r gostyngiad mwyaf yng Nghoed Duon 3 (gostyngiad o 6.7% neu 132 o bobl). Gall deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd llesiant allweddol.

Yn anffodus, nid yw rhagamcanion poblogaeth ar gael o dan lefel y Fwrdeistref Sirol, felly mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys isod.

Rhagwelir y bydd poblogaeth gyffredinol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 2.0% rhwng 2019 a 2043⁴, i 186,991. Mae hyn mewn cyferbyniad â thueddiadau diweddar, lle cynyddodd y boblogaeth 5.4% rhwng cyfrifiad 1991 a chyfrifiad 2011.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 0-15 oed sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn gostwng 7.4% rhwng 2019 a 2043, sy'n debyg yn fras i gyfartaledd Cymru o 8.0%⁵. Rhagwelir y bydd y gostyngiad mwyaf hyd at 2028 ac yn dilyn hynny rhagwelir y bydd y ffigur yn aros yn weddol gyson, sef tua 31,000. Gallai hyn olygu 2,521 yn llai o bobl yn yr ystod oedran yma ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng 3.1% rhwng 2019 a 2043 (o'i gymharu â gostyngiad o 2.1% yng Nghymru gyfan), gyda gostyngiad eithaf cyson yn cael ei ragamcanu dros y cyfnod amser. Gallai hyn olygu 3,487 yn llai o bobl yn yr ystod oedran yma ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043⁶.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 27.2% rhwng 2019 a 2043, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 28.7%⁷. Ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili gallai hyn olygu 9,653 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043⁸. Mae'r ffigur hwn 61% yn uwch na'r gostyngiad rhagamcanol cyfunol yn ffigurau'r boblogaeth ar gyfer y grwpiau oedran 0-15 a 16-64 erbyn 2043.⁹

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 82.6% rhwng 2019 a 2043, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 69.5%. Ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gallai hyn olygu 3,145 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043¹⁰.

Yn sicr, mae llawer o fanteision posibl i lesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau yn sgil pobl sy'n byw'n hirach.

Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y gallai fod galw uwch am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn y dyfodol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth oedranus, wrth i'r duedd yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynyddu wrth i ni fynd yn hŷn.

Bydd poblogaeth sy'n heneiddio hefyd angen tai priodol sy'n diwallu eu hanghenion, yn awr ac yn y dyfodol.

Nid yw'r data diweddaraf o Gyfrifiad 2021 ar gael, ond yng Nghyfrifiad 2011:

Cymry Cymraeg

Gallai o leiaf 20.3% o drigolion Dwyrain Canol y Cymoedd (DcyC) siarad rhywfaint o Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Caerffili o 22.2% ac yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 37.8%¹¹.

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Gwlad geni	Ganwyd 90.2% o drigolion DCyC yng Nghymru, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 88.6% ond yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 72.7% ¹² .
Ethnigrwydd	Roedd 98.5% o drigolion DCyC o ethnigrwydd Gwyn, bron yn union yr un fath â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 98.3% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 95.6% ¹³ .
Crefydd	Roedd 49.9% o drigolion DCyC yn nodi Cristnogaeth fel eu crefydd, ychydig yn is na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 50.7% ac yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 57.5% ¹⁴ .

Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a thyfu'r Gymraeg yn helpu i warchod diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4.2 Mynd o gwmpas



Mae pobl yn teithio am amrywiaeth o resymau yn Nwyrain Canol y Cymoedd a thu hwnt; ar gyfer hamdden neu i gwrdd â ffrindiau a theulu, i fynychu addysg neu waith, i symud nwyddau neu ddarparu gwasanaethau, neu i gael mynediad at wasanaethau eu hunain. Mae yna deithwyr i'r ardal hefyd, fel y rhai sy'n gweithio yn yr ystadau diwydiannol neu'r siopau a'r swyddfeydd, a'r rhai sy'n ymweld at ddibenion twristiaeth neu'n mwynhau'r cefn gwlad hyfryd.

Mae **Rheilffordd Cwm Ebwy** yn darparu gwasanaeth teithwyr bob awr (bob dwy awr ar y Sul) rhwng Parcffordd Glynebwy a Chaerdydd Canolog. O fewn Dwyrain Canol y Cymoedd mae gorsaf yn Nhrecelyn. O fis Rhagfyr 2021, mae gwasanaeth bob awr yn gweithredu rhwng Casnewydd a Crosskeys, a fydd yn cael ei ymestyn i Lynebwy yn 2023 yn dilyn gwelliannau i'r seilwaith.

Coed Duon yw'r unig brif dref nad yw wedi'i lleoli ar linell rheilffordd ac, o ganlyniad, mae'n dioddef o'i chymharu â phrif drefi eraill o ran cysylltiadau cludiant cyhoeddus â Chaerdydd. Rail Linc 901 yw'r gwasanaeth pwrpasol, cyflym a chyfleus sy'n cysylltu gorsaf Ystrad Mynach â Choed Duon, Pontllan-fraith a Maescwmer.

Mae gan yr ardal gymunedol gysylltiadau ffordd da i'r de â Chaerffili/Caerdydd a Chasnewydd, ac mae hefyd yn cynnwys cyswllt dwyrain-orllewin canol y cymoedd hanfodol yr A472 sy'n rhedeg o Grymlyn, trwy Drecelyn i Ystrad Mynach a thu hwnt. Mae gwasanaethau bws rheolaidd yn gweithredu rhwng Coed Duon a Thredegar, Tredegar Newydd, Bargod ac Ystrad Mynach. Yn ogystal, mae nifer o lwybrau bysiau sy'n gweithredu'n rheolaidd o amgylch y pentrefi llai yn Nwyrain Canol y Cymoedd.

Un o'r prif faterion cludiant cyhoeddus yn yr ardal gymunedol yw ei bod yn anodd iawn teithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn y Fwrdeistref Sirol, ac mae angen i unigolion gymryd nifer o fysiau i wneud y daith hon.

Mae **Metro De Cymru** yn rhwydwaith cludiant cyhoeddus integredig a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), gan drawsnewid gwasanaethau trên a bws yn ogystal â beicio a cherdded. I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau ar gyfer y Metro, ewch i wefan Trafnidiaeth Cymru [Metro De Cymru | Trafnidiaeth Cymru \(trc.cymru\)](https://trc.cymru).

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Gall trafndiaeth a'i hygyrchedd gael effaith sylweddol ar aelwydydd ag incwm isel neu gyfyngedig, a gall prisiau uchel wneud cludiant cyhoeddus yn opsiwn drud i'r rhai sy'n dibynnu arno. Gall lleihau costau cludiant helpu i gynyddu incwm gwario a helpu i leihau tlodi mewn gwaith.

Mae nifer fechan o fannau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus yn Nwyrain Canol y Cymoedd, ym Maes Parcio West View (Trecelyn) a maes parcio Market Trader (Coed Duon)¹⁵. Mae'r stoc tai yn Nwyrain Canol y Cymoedd yn bennaf yn dai ar wahân neu'n dai pâr, gyda rhai tai teras. Bydd hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd gan lawer o eiddo ddreif neu fan parcio oddi ar y stryd, a fydd yn helpu i alluogi perchnogion tai i osod seilwaith cerbydau trydan. Fodd bynnag, ar gyfer tai teras, gallai gwefru cerbydau trydan fod yn broblem o hyd. Gobeithio y bydd datblygiadau yn y dyfodol mewn seilwaith gwefru trydan yn helpu i ddatrys y mater hwn.

Gall cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus wneud cyfraniad pwysig at anghenion trafndiaeth leol, tra hefyd yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar geir.

Gall llwybrau teithio llesol diogel, yn enwedig y rhai sy'n darparu potensial cymudo, helpu i gefnogi ffyrdd iach o fyw. Yn y dyfodol efallai y bydd mwy o bobl yn dewis teithio'n llesol, fel y gallant gadw'n iachach yn eu henaint. Efallai y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn defnyddio beiciau trydan i fynd o gwmpas yr ardal.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer ohonom yn **cerdded ac yn beicio mwy** ac yn gwerthfawrogi gwerth ein manau gwyrdd lleol.

Mae **Llwybr 467 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol** (RhBC) yn ymestyn oddi ar Llwybr 46 i Gwm Sirhywi, heibio Treddegar ac ymlaen i Goed Duon drwy Argoed. Mae'r rhan rhwng Markham a'r Coed Duon yn llwybr diogel a deniadol heb draffig, sy'n ei wneud yn berffaith i deuluoedd a dechreuwyr. Mae'n teithio ar hyd ochr Cwm Sirhywi a thrwy'r llechwedd

coediog heddychlon, er bod bwch yn y llwybr i'r de o Dredegar ac i'r gogledd o Markham.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer mwy ohonom yn gweithio gartref ac yn cyrchu gwasanaethau ar-lein, ond mae rhai mathau o waith na ellir eu gwneud o bell nac yn ddigidol, megis gwaith ffatri neu fanwerthu. Efallai na fydd angen i genedlaethau'r dyfodol deithio cymaint i'r gwaith.

Mynediad band eang



Mae gan y mwyafrif o aelwydydd DCyC fynediad at fand eang o 30Mb/s o leiaf, er bod yna ambell fan lle mae fynediad yn waeth, megis Trecelyn 2 (32.1%), Pengam 1 (21%) ac Argoed 2 (9.4%)¹⁶. Ar gyfer hanner y cartrefi yn DCyC mae'r gyfran heb fynediad i fand eang o 30Mb/s o leiaf yn llai nag 1%.

Er bod hygyrchedd band eang yn Nwyrain Canol y Cymoedd yn dda ar y cyfan, mae fforddiadwyedd band eang yn llawer mwy o broblem i'r rheini sydd ar incwm isel neu gyfyngedig. Gall llythrennedd digidol gwael hefyd fod yn rhwystr sylweddol i rai grwpiau o fewn y gymuned.

Efallai y bydd cymunedau'r dyfodol yn llai dibynnol ar systemau telathrebu sefydlog a gallai mwy o bobl ddefnyddio technolegau mwy newydd fel 5G ac ati.

Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fydd gweithio gartref a mynediad ar-lein i wasanaethau yn drefniant parhaol am y dyfodol rhagweladwy, neu a fydd pobl yn dechrau dychwelyd i'w manau gwaith neu'n dewis cyrchu gwasanaethau wyneb yn wyneb. Mewn gwirionedd mae'n debygol y gwelir cyfuniad o ryngweithio ar-lein, o bell ac yn bersonol.

Yn y dyfodol bydd angen i Fwrdeistref Sirol Caerffili gyfan (gan gynnwys Dwyrain Canol y Cymoedd) fod yn seibr-ddiogel ac yn ddigidol gynhwysol.

4.3 Mynediad i wasanaethau



Coed Duon w'r brif dref yn Nwyrain Canol y Cymoedd, a bydd trigolion yn teithio o'r ardaloedd cyfagos i'r dref i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae ganddi nifer o archfarchnadoedd cenedlaethol mawr (gan gynnwys Asda, Farm Foods, Iceland a Sainsburys), pum cangen banc a changen cymdeithas adeiladu, ynghyd ag amrywiaeth o siopau cenedlaethol ac annibynnol ar hyd y Stryd Fawr.

Parc Busnes Oakdale yw'r prif safle cyflogaeth ar gyfer Dwyrain Canol y Cymoedd ac fe'i hategir gan ystadau diwydiannol Woodfieldside, Britannia, Parc Hawtin, Dewi Sant, Penmaen, Ffordd Trecelyn, Tram Road a Phen-y-fan. Mae parc manwerthu bach hefyd yn y Coed Duon, a bydd pob un ohonynt yn darparu cyfoeth o gyfleoedd cyflogaeth lleol.

Mae **Trecelyn** yn ganolfan leol sydd â nifer o siopau cenedlaethol ac annibynnol llai.

Ar draws Dwyrain Canol y Cymoedd ceir y gwasanaethau canlynol:

Math o ased	Nifer
Ysgol Gynradd	19
Ysgol Uwchradd	3
Coleg AB	1
Llyfrgelloedd	4
Canolfannau hamdden	4
Canolfan gymunedol	7
Banciau/cymdeithasau adeiladu	6

Swyddfa Bost	8
Parciau gwledig	1

Mae gan Ddwyrain Canol y Cymoedd hefyd nifer o ganghennau Swyddfa'r Post yn y pentrefi llai, sy'n cynnig mynediad amgen i wasanaethau bancio lle nad oes canghennau banc.

Mae gan Ddwyrain Canol y Cymoedd 15 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, pedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a thair ysgol gyfun cyfrwng Saesneg (Coed Duon, Trecelyn ac Ysgol Uwchradd Islwyn) sy'n darparu addysg i blant 11-16 oed. Mae prif gampws Ysgol Gyfun Cyfrwng Cymraeg y Fwrdeistref Sirol (Ysgol Gyfun Cwm Rhymni) hefyd wedi ei leoli yn yr ardal ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant 11-19 oed. Ar wahân i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, nid oes gan ysgolion Dwyrain Canol y Cymoedd unrhyw ddarpariaeth chweched dosbarth, felly bydd disgyblion sydd am fynd ymlaen i addysg bellach a/neu uwch fel arfer yn mynychu naill ai Coleg Gwent (campws Crosskeys) neu Goleg y Cymoedd (campws Ystrad Mynach).

Mae canolfan hamdden fawr yn Nhrecelyn a chanolfannau hamdden llai ym Mhontllan-fraith a Chefn Fforest. Mae Canolfan Hamdden Trecelyn wedi'i lleoli gerllaw'r ysgol gyfun ac mae'n cynnwys pwll nofio mawr gyda llithren tiwb, llong môr-ladron ac offer chwarae dŵr, ynghyd â neuadd chwaraeon amldeffnydd, ystafell ffitrwydd, stiwdio ddawns a stiwdio beicio grŵp.

4.4 Trosedd a diogelwch cymunedol

Oni bai bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r awydd i gael mynediad at wasanaethau neu gymryd rhan ym mywyd y gymuned.

Roedd gan 20 o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd gyfraddau **Difrod Troseddol** uwch na chyfartaledd Cymru, sef 1.14 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan bump ACEHI (Coed Duon 4, Coed Duon 2, Pontllan-fraith 3, Pengam 2 a Chefn Fforest 2) gyfraddau oedd ddwywaith cyfartaledd

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Cymru ar gyfer Difrod Troseddol, ac yng Nghoed Duon 4 roedd y ffigur bron deirgwaith yn fwy na chyfartaledd Cymru.

Roedd gan 12 o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd gyfradd **Troseddau Treisgar** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.67 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan un ACEHI (Coed Duon 4) gyfradd oedd dros ddwywaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Troseddau Treisgar¹⁷.

Roedd gan bump o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd gyfradd troseddau **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.55 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Dim ond un ACEHI (Coed Duon 4 – cyfradd 7.52) oedd â chyfradd bron deirgwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol¹⁸.

Roedd gan 15 o 25 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd gyfradd **Byrgleriaeth** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.98 achos fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael ar gyfer y tair ACEHI arall). Roedd gan Bontllan-fraith 3 (cyfradd 2.11) gyfradd Byrgleriaeth oedd fwy na dwywaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Byrgleriaeth.

Roedd gan saith o'r 21 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd gyfradd **Lladrata** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.53 achos fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael ar gyfer y saith ACEHI arall).

Roedd gan 17 o 21 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd gyfradd **Achosion Tân** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.38 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth (nid oedd y wybodaeth ar gael ar gyfer y saith ACEHI arall). Roedd gan bump ACEHI (Pontllan-fraith 2, Pontllan-fraith 3, Coed Duon 4, Pengam 2 a Phengam 1) gyfraddau oedd dros ddwywaith cyfartaledd Cymru, ac roedd gan Bontllan-fraith 2 gyfradd o 1.25, dros deirgwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Achosion Tân.

Bydd mynd i'r afael ag achosion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi mwy o gydlyniant yng nghymunedau Dwyrain Canol y Cymoedd.

4.5 Amddifadedd

Mynegai **Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o dlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny (mewn ardal ddaearyddol ACEHI), sydd â'r crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd, ynghyd ag amddifadedd cyffredinol. Mae MALIC yn rhestru holl ACEHI Cymru o'r mwyaf (safle 1) i'r lleiaf difreintiedig (safle 1909).

Mae safleoedd parth MALIC ar gael ar gyfer pob ACEHI yng Nghymru, ac mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r ACEHI sy'n perthyn i'r categorïau mwyaf difreintiedig yn Nwyrain Canol y Cymoedd, ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol a rhai meysydd penodol.

Amddifadedd cyffredinol	Nid oes unrhyw ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol yn DCyC. Mae pedair ACEHI yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig – Argoed 1 (safle 213 o 1909 yng Nghymru), Trecelyn 2 (safle 214), Crymlyn 3 (safle 251) a Chefn Fforest 1 (safle 367).
Parth Iechyd	Dim ond ACEHI Trecelyn 2 (safle 171) sydd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Iechyd yn DCyC. Mae tair ACEHI arall yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn DCyC – Argoed 1 (safle 267), Pontllan-fraith 2 (safle 287) a Chrymlyn 3 (safle 339).
Parth Diogelwch Cymunedol	Mae tair ACEHI yn y categori mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Diogelwch Cymunedol yn DCyC – Coed Duon 4 (safle 55), Pengam 2 (safle 168) a Phontllan-fraith 3 (safle 174).

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Parth Incwm

Dim ond ACEHI Argoed 1 (safle 156) sydd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Incwm yn DCyC. Mae pump ACEHI yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn DCyC – Pontnewydd 2 (safle 240), Coed Duon 2 (safle 295), Pengam 2 (safle 300), Crymlyn 3 (safle 303) a Chefn Fforest 1 (safle 367).

Parth Cyflogaeth

Nid oes unrhyw ACEHI yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Cyflogaeth yn DCyC. Mae saith ACEHI yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn DCyC – Argoed 1 (safle 192), Cefn Fforest 2 (safle 233), Crymlyn 3 (rheng 237), Trecelyn 2 (safle 249),

Pengam 2 (safle 332).), Coed Duon 2 (rheng 344) a Phontllan-fraith 2 (rheng 374).

Mae tabl sy'n dangos y safleoedd parth ar gyfer pob ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd i'w weld ar Dudalennau 11 a 12. Mae hyn yn amlygu bod rhai mannau cyfyngedig iawn o amddifadedd yn Nwyrain Canol y Cymoedd, heb unrhyw ACEHI yn y 10% uchaf o'r categori mwyaf difreintiedig ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol, a dim ond y Parth Addysg a'r Parth Diogelwch Cymunedol sydd â mwy nag un ACEHI yn y categori hwn.

Aseiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 - Dwyrain Canol y Cymoedd									
Enw ACEHI	Amddifadedd Cyffredinol	Parth Incwm	Parth Cyflogaeth	Parth Iechyd	Parth Addysg	Parth Mynediad i Wasanaethau	Parth Tai	Parth Diogelwch Cymunedol	Parth Amgylchedd Ffisegol
Argoed 1	213	156	192	267	155	1375	411	604	1584
Argoed 2	710	913	958	1198	826	260	44	678	1294
Coed Duon 1	1009	914	871	927	1019	1405	865	354	700
Coed Duon 2	394	295	344	653	250	834	1334	197	1182
Coed Duon 3	1731	1542	1447	1552	1533	1838	1866	1042	1092
Coed Duon 4	945	932	929	912	985	1605	752	55	957
Coed Duon 5	1682	1586	1343	1604	1722	1212	1701	945	1247
Cefn Fforest 1	367	367	417	421	105	1676	420	673	1117
Cefn Fforest 2	420	413	233	524	408	1205	1223	232	1065
Crymlyn 1	1448	1525	1612	1230	1313	1494	587	1518	128
Crymlyn 2	1558	1346	1390	1182	1289	1505	1666	1304	776
Crymlyn 3	251	303	237	339	91	461	1528	568	1004
Crymlyn 4	929	993	766	930	827	1272	512	656	546
Trecelyn 1	1242	1186	1132	874	995	1547	1007	781	612
Trecelyn 2	214	240	249	171	195	298	1129	502	1166
Trecelyn 3	1110	995	867	827	1161	1543	1160	672	599
Trecelyn 4	798	748	873	663	1108	1479	441	317	289

Aseiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 - Dwyrain Canol y Cymoedd									
Enw ACEHI	Amddifadedd Cyffredinol	Parth Incwm	Parth Cyflogaeth	Parth Iechyd	Parth Addysg	Parth Mynediad i Wasanaethau	Parth Tai	Parth Diogelwch Cymunedol	Parth Amgylchedd Ffisegol
Pengam 1	472	538	491	411	483	880	323	411	959
Pengam 2	405	300	332	500	378	1279	819	168	1154
Pengam 3	918	882	781	611	878	1682	755	726	641
Penmaen 1	1733	1716	1416	1513	1560	1882	1847	992	877
Penmaen 2	947	841	821	721	683	1859	594	1156	977
Penmaen 3	1519	1486	1135	1109	1302	1511	1380	1117	1209
Pontllan-fraith 1	664	676	525	767	545	676	1355	648	681
Pontllan-fraith 2	423	408	374	287	780	478	901	426	912
Pontllan-fraith 3	1007	887	833	1250	776	1422	1189	174	1003
Pontllan-fraith 4	1713	1718	1445	1374	1475	1809	1480	1568	800
Pontllan-fraith 5	715	432	616	954	715	1003	1206	832	765

Safle MALIC 1-1909
1-191: 10% mwyaf difreintiedig
192-382: 11-20% mwyaf difreintiedig
383-573: 21-30% mwyaf difreintiedig
574-955: 31-50% mwyaf difreintiedig
956-1909: 50% lleiaf difreintiedig

4.6 Iechyd

Mae iechyd da yn agwedd bwysig ar lesiant ar gyfer pob unigolyn ym mhob cymuned, ac mae rhai heriau yn Nwyrain Canol y Cymoedd o ran incwm, cyflawniad addysgol a lefelau amddifadedd diogelwch cymunedol a allai gael effaith ar iechyd, ac o bosibl gyfrannu at neu gael ei achosi gan iechyd gwael.

Er bod iechyd hunangofnodedig yn gyffredinol dda, mae cyfradd marwolaethau cynamserol yn uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru ac mae gan 25.2% o'r bobl sy'n byw yn Nwyrain Canol y Cymoedd salwch cyfyngus hirdymor.

Salwch cyfyngus hirdymor	Dywedodd 25.2% o drigolion DCyC fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig neu lawer oherwydd eu hiechyd. Mae'r ffigur hwn fwy neu lai yr un fath â chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Caerffili (25.4%), ond yn uwch na'r cyfartaledd (22.7%) ar gyfer Cymru gyfan.
Cyfradd marwolaethau pob achos	Roedd y gyfradd marwolaethau o bob achos yn ACEHG yn DCyC dros y cyfnod 2017-19 rhwng 990.9 fesul 100,000 o boblogaeth Caerffili 011 (Pontllanfraith) a 1255.8 yng Nghaerffili 007 (Pengam a Chefn Fforest), o'i chymharu â chyfraddau cyfartalog Bwrdeistref Sirol Caerffili (1103.7) a chyfraddau cyfartalog Cymru (1031.2) ¹⁹ .
Marwolaethau cynamserol	Mae cyfradd y marwolaethau cynamserol (o dan 75) yn DCyC yn amrywio rhwng 335.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghaerffili 011 (Pontllanfraith) a 455.0 yng Nghaerffili 007 (Pengam a Chefn Fforest),

	sy'n sylweddol uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru (382.4) ²⁰ .
Cyflyrau cronig a gofnodwyd gan Feddyg Teulu	Mae canran y trigolion a gofnodwyd â chyflwr cronig gan feddyg teulu yn DCyC yn amrywio o 13.3% yng Nghaerffili 009 (Coed Duon) i 16% yng Nghaerffili 007 (Pengam a Chefn Fforest). Mae'r ganran mewn tri o'r chwech ACEHG yn DCyC yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.3% ²¹ .
Cyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddyg Teulu	Mae canran y trigolion â chyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddyg Teulu yn DCyC yn amrywio o 18.9% yng Nghaerffili 009 (Coed Duon) i 28.2% yng Nghaerffili 010 (Pontnewydd). Dim ond un ACEHG (Caerffili 009) yn DCyC sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 23.2% ²² .

Gall disgwyliad oes a disgwyliad oes iach amrywio'n sylweddol hyd yn oed o fewn ardaloedd cymharol fach, yn enwedig lle mae cymysgedd o ardaloedd mwy difreintiedig a llai difreintiedig. Yn Nwyrain Canol y Cymoedd, ar gyfer dynion adeg geni roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 55.8 mlynedd yn wardiau Argoed a Chefn Fforest i 60.8 mlynedd yn ward Coed Duon, sef bwlch o 5.0 mlynedd. Roedd y ffigurau ar gyfer pump o'r wyth ward yng Nghanol y Cymoedd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer menywod, roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 55.3 mlynedd yn ward Cefn Fforest i 63.1 mlynedd yn ward Penmaen, sef bwlch o 7.8 mlynedd. Ar gyfer pob ward ar wahân i Penmaen roedd y ffigurau ar gyfer pob ward yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru²³.

Bydd mynd i'r afael â phrif achosion marwolaeth a salwch cynamserol, gohirio eiddilwch a helpu oedolion o oedran gweithio i fyw bywydau

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

iachach am gyfnod hirach, drwy atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd a hybu llesiant meddwl, yn helpu i greu Dwyrain Canol y Cymoedd iachach.

Mae trigolion Dwyrain Canol y Cymoedd yn fwyaf tebygol o ymweld ag Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd (o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) neu Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach er mwyn trin mân anafiadau neu gael mynediad at lawdriniaeth wedi'i chynllunio, gwasanaethau diagnostig a chlinigau arbenigol cleifion allanol. Mae Ysbyty Athrofaol y Grange yng Nghwmbrân (eto o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) yn darparu gwasanaethau Arbenigol, Trawma a Gofal Critigol ar gyfer Gwent gyfan.

Dyweddodd 24.9% o drigolion Dwyrain Canol y Cymoedd fod eu hiechyd yn weddol, yn wael neu'n wael iawn. Mae'r ffigur hwn bron yn union yr un fath â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 25.2%, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru o 22.2%²⁴.

4.7 Tai ac aelwydydd

Ystyriaeth allweddol ar gyfer dyfodol Dwyrain Canol y Cymoedd yw sicrhau bod y math iawn o dai ar gael i gefnogi anghenion y gymuned.

Os caiff tai'r dyfodol eu gwella o ran effeithlonrwydd ynni, bydd cartrefi'n gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg ac yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon. Bydd angen i gartrefi'r dyfodol allu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Bydd y tai sy'n cael eu hadeiladu yn awr yn etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol.

Stoc tai	Mae 45.2% o eiddo yn DCyC yn dai pâr o'i gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 39.2% a chyfartaledd Cymru o 31%. Roedd 29.9% o eiddo yn y categori tai teras, o'i gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 36.1% a chyfartaledd Cymru o 27.8%. Roedd 19.1% o eiddo yn y categori tai ar wahân, o'i gymharu â
-----------------	---

	chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 16.1% a chyfartaledd Cymru o 27.7%.
Band treth y cyngor	Mae 52.5% o dai yn DCyC wedi'u graddio fel band Treth y Cyngor A neu B (y categorïau tai â'r gwerth isaf), bron yn union yr un fath â'r gyfran yn y Fwrdeistref Sirol gyfan o 52.9%.
Daliadaeth	Mae 70.9% o dai DCyC mewn perchnogaeth lwyr neu gyda morgais, ychydig yn uwch na'r ffigur o 69.3% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan a 67.4% yng Nghymru. Mae 18.2% yn cael eu rhentu gan yr awdurdod lleol neu gymdeithas dai, o'i gymharu â 18.7% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan a 16.4% yng Nghymru.

Ym MALIC 2019, roedd gan 12 o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (5.5%) o bobl yn byw ar aelwydydd gorlaw, gydag Argoed 1 (9.9%), Trecelyn 2 (9.1%) a Chefn Fforest 1 (8.6%) â'r canrannau uchaf.

Roedd gan naw o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (19.7%) ar gyfer y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael – gydag Argoed 2 (41%), Coed Duon 4 (29.1%) a Phontnewydd 1 (28.4%) â'r canrannau uchaf²⁵.

Roedd gan naw o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (18%) ar gyfer y tebygolrwydd o dai yn cynnwys peryglon difrifol – roedd y ffigur ar gyfer Argoed 2 (36.9%) dros ddwywaith cyfartaledd Cymru, gyda ffigurau uchel yn Coed Duon 4 (26.1%), Trecelyn 1 (25.5%) a Threcelyn 4 (24.5%)²⁶.

Roedd gan 11 o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (3.2%) ar gyfer y tebygolrwydd y byddai tai mewn cyflwr gwael – roedd y ffigur ar gyfer Argoed 2 (6.7%) dros ddwywaith

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

cyfartaledd Cymru, eto gyda ffigurau uchel yn Coed Duon 4 (6.2%), Trecelyn 3 (5.3%) a Chrymlyn 4 (5.3%)²⁷.

Mae **Safon Ansawdd Tai Cymru** yn gyfres o safonau y mae'n rhaid i bob cartref Cyngor a Chymdeithas Tai yng Nghymru eu bodloni. Mae'r safon yn nodi y dylai pob cartref fod mewn cyflwr da, yn ddiogel, wedi'i wresogi'n ddigonol, yn gyfoes o ran ceginau ac ystafelloedd ymolchi, wedi'i reoli'n dda, mewn amgylcheddau deniadol a diogel ac yn addas ar gyfer aelwydydd penodol. Gan fod y Cyngor wedi cadw ei stoc tai, mae'n gyfrifol am godi'r stoc i'r safon hon.

Mae tua £260 miliwn wedi'i wario ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y blynyddoedd diwethaf i gyrraedd y safon hon. Mae gwaith mewnol wedi cynnwys ceginau, ystafelloedd ymolchi, gwresogi ac ailweirio trydanol newydd. Mae gwaith allanol wedi cynnwys drysau newydd, ffenestri, landeri/pibellau dŵr ac ail-doi eiddo. Mae rhaglen gwella amgylcheddol hefyd wedi'i chyflwyno fel rhan o SATC, sy'n edrych ar ardaloedd y tu allan i gwrtil tai cyngor.



Mae amrywiaeth eang yn y cynnydd canolrifol mewn prisiau a dalwyd am dai mewn wardiau gwahanol yn Nwyrain Canol y Cymoedd rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2021. Yn ward Penmaen mae'r pris canolrifol wedi cynyddu 56.2% i £202,995, ac yn ward Argoed cynyddodd y pris canolrifol 30.1% i £117,000. Roedd y cynnydd canrannol lleiaf yn ward Crymlyn, lle cynyddodd y pris canolrifol 10.6% i £134,975²⁸.

Yr incwm blynyddol cyfartalog ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yw £29,289²⁹, sy'n golygu bod y gymhareb pris tŷ i incwm bron yn 7:1 yn ward Penmaen (a oedd â'r pris canolrifol uchaf ym mis Mawrth 2021), a 4:1 yn ward Argoed (y pris canolrifol isaf). Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i berson sengl wario bron i 7 gwaith ei gyflog i allu prynu eiddo yn ward Penmaen,

sy'n debygol o olygu bod llawer o bobl sengl yn cael eu hatal rhag prynu eiddo heb gymorth, megis cymorth gan y teulu neu berchnogaeth a rennir.

Mae diffinio'r angen am dai yn gymhleth a bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar lefelau cyffredinol y galw.

Nodweddir yr ardal hon gan brisiau tai a gwerthoedd rhent is o gymharu ag ardaloedd eraill. Bu datblygiad sylweddol gan adeiladwyr tai mawr yn yr ardal hon yn y blynyddoedd diwethaf, gyda 950 o unedau yn cael eu hadeiladu ar safleoedd mawr (dros 10 annedd) dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae galw yn y farchnad am ddatblygiadau newydd yn y maes hwn.

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2018 yn dangos gofyniad ychwanegol ar gyfer datblygu tai cymdeithasol anghenion cyffredinol 1 ystafell wely, 2 ystafell wely a 4 gwely, a gofyniad bach ar gyfer perchentyaeth cost isel. Y gofyniad uchaf am dai cymdeithasol yw anghenion cyffredinol 1 ystafell wely.

5 Llesiant economaidd

5.1 Addysg

Gall profiadau plentyndod bennu datblygiad hirdymor a chyflawniadau bywyd cyffredinol.

Ar gyfer Dwyrain Canol y Cymoedd, mae parth Addysg MALIC 2019 yn dangos y canlynol:

Parth Addysg	Mae tair ACEHI yn DCyC yn y 10% o'r categori mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes Addysg – Crymlyn 3 (safle 91), Cefn Fforest 1 (safle 105) ac Argoed 1 (safle 155).
---------------------	---

Bydd sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o ansawdd da a chodi dyheadau cenedlaethau o bobl ifanc yn y dyfodol yn cefnogi eu llesiant economaidd hirdymor.

Mae'r data'n dangos bod cyfran y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd i Addysg Uwch yn Nwyrain Canol y Cymoedd yn amrywio rhwng 10.8% yn Trecelyn 2 i 46.1% yn Coed Duon 5. Mae hefyd yn dangos bod cyfran yr oedolion 25 i 64 oed heb unrhyw gymwysterau yn amrywio o 12.6% yn y Coed Duon 3 i 39.5% yn Trecelyn 2³⁰.

I rai pobl ifanc, gall eu hamgylchiadau ariannol a chost ac argaeledd cludiant fod yn rhwystrau mawr rhag mynd i addysg uwch.

Mae angen cefnogi ac annog cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o bobl ifanc i'w hatal rhag dod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Absenoldeb mynych o'r ysgol

Mae absenoldeb mynych o ddisgyblion ysgol yn DCyC yn amrywio o 1.9% yng Nghoed Duon 3 a Choed Duon 5 i 11.8% yng Nghefn Fforest 1³¹. (Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n colli mwy na 15% o sesiynau ysgol, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd)

5.2 Gwaith a sgiliau

Bydd gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i ddod o hyd i waith sy'n gweddu, sy'n werth chweil ac sy'n osgoi tlodi mewn gwaith.

Gweithgarwch economaidd / anweithgarwch




Roedd 33,020 o drigolion 16-74 oed yn DCyC ar adeg Cyfrifiad 2011³². O'r rhain, roedd 21,459 yn economaidd weithgar:

- Roedd 52.1% yn gyflogedig (49.5% yng Nghymru)
- Roedd 6% yn hunangyflogedig (8.6% yng Nghymru)
- Roedd 4.6% yn ddi-waith (4.3% yng Nghymru).

Roedd 11,561 o drigolion economaidd anweithgar yn DCyC:

- Roedd 16.9% wedi ymddeol (16.1% yng Nghymru)
- Roedd 4.2% yn gofalu am eu cartref neu deulu (3.8% yng Nghymru)
- Roedd 7.5% yn sâl neu'n anabl hirdymor (6.3% yng Nghymru)

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Sgiliau 	Dangosir y lefel uchaf o gymwysterau ar gyfer trigolion DCyC yng Nghyfrifiad 2011 isod ³³ .		
		DCyC	Cymru
	Dim cymwysterau	32.0%	25.9%
	Lefel 1	15.1%	13.3%
	Lefel 2	16.4%	15.7%
	Lefel 3+	29.0%	36.8%
	Prentisiaeth	3.8%	3.9%
Diwydiant cyflogaeth	Yng Nghyfrifiad 2011 y diwydiant cyflogaeth mwyaf yn DCyC oedd Gweithgynhyrchu ar 19.8% (10.5% yng Nghymru). Dilynwyd hyn gan Fasnach Cyfanwerthu a Manwerthu: Trwsio Cerbydau Modur a Beiciau Modur ar 14.9% (15.6% yng Nghymru) a Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol ar 11.7% (14.5% yng Nghymru) ³⁴ .		
Prif safleoedd cyflogaeth	Mae ystadau diwydiannol yn Woodfieldside, Britannia, Parc Hawtin, Dewi Sant, Penmaen, Ffordd Trecelyn, Tram Road a Phen-y-fan, sydd ynghyd â Pharc Busnes Oakdale, yn darparu amrywiaeth o weithgareddau cyflogaeth lleol ar gyfer yr ardal.		

Nid Dwyrain Canol y Cymoedd yw'r unig ardal sydd â gorddibyniaeth ar y sector Gweithgynhyrchu, gyda darlun tebyg ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili a llawer o dde Cymru.

Mae pandemig Covid-19 yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar batrwm cyflogaeth yn lleol, gyda'r effeithiau mwyaf yn y sectorau Manwerthu, Lletygarwch, Twristiaeth ac (i raddau) Adeiladu.

Bydd yr ardaloedd mwyaf llwyddiannus yn gallu cynnig amrywiaeth o swyddi o safon mewn gwahanol sectorau, ac mae'r economi sylfaenol hefyd yn dod yn fwyfwy pwysig (yr economi sylfaenol sy'n darparu'r gwasanaethau bob dydd y mae ein trigolion a'n busnesau yn dibynnu arnynt, megis ynni, bwyd a gofal iechyd, ac mae ganddi ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at wydnwch hirdymor yr economi leol). Bydd cael cyflogaeth o ansawdd da sy'n talu'n dda yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles unigolyn.

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â naw ardal awdurdod lleol arall yn Ne-ddwyrain Cymru yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), sydd dros gyfnod o 10 mlynedd yn ceisio cyflawni set o dargedau yn y rhanbarth gan gynnwys 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036, trosoledd o £4 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae wyth sector blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai pwysig i'r rhanbarth wrth symud ymlaen:



Ffigur 4: Sectorau blaenoriaeth Dinas-Ranbarth Caerdydd

Un o'r heriau allweddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan fydd sicrhau bod y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol yn cysylltu â Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd lle bo'n briodol, fel bod yr ardal yn elwa

Aseiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

cymaint â phosibl ar y buddsoddiad a'r twf economaidd a fydd yn digwydd yn y blynyddoedd i ddod.

6 Llesiant amgylcheddol



Ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd sy'n darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a hamdden. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy gan gynnwys rheoli dŵr, cefnogi pryfed peillio a storio carbon.

Mae'r hen ddiwydiannau mwynloddio a haearn a'r safleoedd diwydiannol trwm cysylltiedig wedi cael effaith fawr ar dirwedd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Lleolwyd pyllau glo ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda deugain o byllau glo yng Nghwm Rhymni Uchaf yn unig erbyn dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r diwydiannau hyn wedi cyfrannu at etifeddiaeth iechyd gwael yn y Fwrdeistref Sirol. Erbyn diwedd yr 20fed Ganrif, yn dilyn cau'r holl byllau glo, cafodd llawer o weddillion y diwydiannau hynny eu hadennill neu eu symud a'u tirlunio i ddileu'r dystiolaeth weledol o orffennol diwydiannol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r etifeddiaeth ddiwydiannol hon o'r gorffennol yn dangos pwysigrwydd cynnal a gwella treftadaeth naturiol y Fwrdeistref Sirol, er mwyn gwella ansawdd bywyd a chreu amgylchedd iachach i bobl leol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod llawer o'r safleoedd diffaith a halogedig sy'n weddill yn cynnwys tirweddau ecolegol pwysicaf y Fwrdeistref Sirol.

Mae glasu cymoedd De Cymru wedi bod yn drawsnewidiol – lle safai pennau pyllau glo a gweithfeydd mwynloddio ar un adeg, mae parciau gwledig a choedwigaeth bellach yn cynnig amgylchedd gwyrdd ac iach sy'n denu miloedd o drigolion a thwristiaid bob blwyddyn. Mae'r dirwedd yn cael ei chynnal, ei gwarchod a'i gwella gan ffermwyr, mentrau a grwpiau,

gan gefnogi systemau ecolegol cysylltiedig, bioamrywiaeth gyfoethog, lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd a darparu'r bwyd ar ein platiau.

Mae'r amgylchedd byw naturiol yn arbennig yn helpu i godi llesiant meddwl pobl, yn ogystal â darparu campfa werdd am ddim i wella iechyd corfforol pobl. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran cynyddu hyd oes iach, lleihau nifer yr achosion o glefydau cronig, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, Diabetes math 2 ac osteoporosis.

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn hyrwyddo tirwedd eiconig a phobl Cymoedd De Cymru, gan weithio gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r amgylchedd a'r buddion cymdeithasol i gymunedau lleol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfan yn rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd ³⁵.

Ffigur 5: Pwll Pen-y-fan, Oakdale

Pwll Pen-y-fan yn un o'r cronfeydd bwydo camlas olaf sydd ar ôl yng Nghymru. Wedi'i adeiladu tua 1794, ei ddiben oedd cyflenwi dŵr i gangen Crymlyn gerllaw Camlas Mynwy ac Aberhonddu. Bellach, mae'r gyrchfan boblogaidd hon yn cynnig mannau diogel, gwastad, agored ar gyfer picnic, hedfan barcud, pysgota, cicio pêl o gwmpas neu gerdded. Yn gofeb ddiwydiannol hanesyddol a gwarchodedig, mae'r pwll wedi'i amgylchynu gan gaeau a choed ar dair ochr ac mae'n atyniad poblogaidd i gymunedau lleol.

Mae **Parc Coffa Syr Harold Finch** yn fan gwyrdd anarferol rhwng Pontllanfraith a'r Coed Duon, ac mae wedi'i enwi er cof am Syr Harold Finch a wasanaethodd etholaeth Bedwellte fel Aelod Seneddol rhwng 1950 a 1970. Unwaith yn rhan o Fferm Penllwyn, mae'r parc yn dal i feddu rhywfaint o gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig o'i orffennol amaethyddol blaenorol. Gyda chymysgedd o laswelltiroedd, gwrychoedd, pwll a gwlyptir yn agos at

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

yr Afon Sirhywi, mae'r parc yn berl o fywyd gwyllt. Mae 75% o'r parc 4.5 hectar hwn wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gan gynnwys **Gwarchodfa Natur Leol Dolydd Coffa**, i gydnabod ei werth o ran bywyd gwyllt. Fel gweddillion gweirglodd a reolir yn draddodiadol, mae'n dal i gadw rhywogaethau planhigion prin a nodedig yn lleol, fel bwrned mawr, mantell felen a bistort. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei reoli i ail-greu'r pori haf blaenorol gan wartheg a thorri gwair a oedd yn gwneud blodau a phlanhigion y safle mor gyfoethog.

Am 26 milltir, mae **Llwybr Cwm Sirhywi** yn dilyn cefnen a llawr y dyffryn trwy dair sir o Gasnewydd i Dredegar. O'r tiroedd comin ar ben y bryn ar ddiwrnod da, gellir mwynhau golygfeydd panoramig dros Fôr Hafren ac i'r gogledd i Fannau Brycheiniog. Yn y dyffrynnoedd islaw mae coetir ffawydd, lonydd â gwrychoedd a llwybrau glan yr afon. Yn cuddio ymhlith hyn mae cyfoeth o olion amaethyddol, archeolegol a diwydiannol sy'n dwyn i gof dreftadaeth gyfoethog cymoedd de Cymru. Mae rhan 5.2 milltir yn mynd trwy galon pentref Manmoel, ac i lawr bron i lawr y dyffryn. Mae'r daith yn teithio ar hyd hen reilffordd, trwy blanhigfa goediog ac ar hyd lonydd gwledig, cyn mynd o dan Bont drawiadol y Siartwyr a gorffen yng Nghanolfan Arddio Coed Duon.

Ffigur 6: Parc Syr Harold Finch, Pontllan-fraith

Yn 2021, mewn partneriaeth a gefnogir gan y Rhwydweithiau Llesiant Integredig a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (RhGC) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, cynhaliwyd cynllun peilot 'Presgripsiwn Natur' newydd, a fydd yn darparu ffordd ychwanegol ymlaen ar gyfer cefnogi cymunedau. Iechyd a llesiant drwy gysylltu trigolion â gweithgareddau yn yr amgylchedd naturiol gyfagos.

7 Llesiant diwylliannol

Mae diwylliant yn eang ac yn hollgynhwysol, yn cwmpasu credoau, arferion, nodweddion a hunaniaeth a rennir ac wedi'i ddiffinio gan bopeth gan gynnwys iaith, traddodiad, treftadaeth, normau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn dawnys, cerddoriaeth a'r celfyddydau a gweithgareddau hamdden eraill. Mae diwylliant hefyd yn cael ei ddylanwadu gan bobl yn symud i ardal a chynyddu amrywiaeth ddiwylliannol, gan arwain at dwf yn niwylliant yr ardal.

Mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn cael ei weld fel rhan fawr o ddiwylliant Cymru gan lawer o bobl. Mae cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg o leiaf yn Nwyrain Canol y Cymoedd yn amrywio o 14.7% yn Nhrecelyn 2 i 27.8% yng Nghoed Duon 3. Roedd gan 21 o'r 28 ACEHI yn Nwyrain Canol y Cymoedd ffigur islaw cyfartaledd y Fwrdeistref Sirol (22.2%) ac roedd y ffigur ym mhob ACEHI yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (37.8%).

Mae grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg, gan ddangos dylanwad addysg Gymraeg yn yr ardal.

Atyniadau allweddol	Mae Sefydliad y Glowyr, Coed Duon , yn ganolfan celfyddydau perfformio amlbwrpas, proffesiynol ac yn adeilad rhestredig Gradd II* eiconig, hanesyddol yng nghanol Coed Duon. Adeiladwyd y Sefydliad yn 1925 fel neuadd snwcer unllawr, a oedd yn wreiddiol ym mherchnogaeth Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo a (CISWO) a thalwyd amdano allan o gyfraniadau glowyr Oakdale a dalodd 3d yr wythnos. Yn 1936, ychwanegwyd dau lawr arall at yr adeilad i gynnwys y llwyfan, awditoriwm, llawr dawnsio, ystafell ddarllen, llyfrgell, ystafell y merched ac ystafelloedd ymarfer ar gyfer cymdeithasau lleol.
----------------------------	--

Aeth yr adeilad yn adfail yn y 1970au-80au ac yn dilyn cau llawer o'r pyllau lleol, trosglwyddwyd yr adeilad i Gyngor Bwrdeistref Islwyn fel ymddiriedolaeth elusennol yn 1990. Cafodd ei adnewyddu a'i ailagor ym mis Chwefror 1992 fel lleoliad celfyddydau ac adloniant cymunedol diolch i gyllid gan Gyngor Bwrdeistref Islwyn a'r Swyddfa Gymreig. Yn 2010, buddsoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili £1.6m er mwyn adnewyddu'r adeilad yn llwyr. Bob blwyddyn mae'r adeilad yn cynnal cannoedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n rhychwantu drama, dawnys, perfformiadau teuluol, cerddoriaeth fyw, opera, llenyddiaeth a chomedi. Y Sefydliad yw'r unig leoliad proffesiynol yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n cydnabod y cyfraniad y mae'r celfyddydau yn ei wneud i adfywiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y rhanbarth ac i iechyd a llesiant trigolion.

Wedi'u lleoli yn Nhrecelyn, mae **Sefydliad a Neuadd Goffa Glofeydd Celynen** yn adeilad rhestredig Gradd II a Gradd II*. Mae adeilad y Sefydliad (a agorodd ym 1908) yn gofeb barhaol i'r glowyr a weithiodd mor galed i'w adeiladu, ac mae'r Neuadd Goffa (a adeiladwyd yn 1924) yn gofeb i'r milwyr lleol a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ym mis Tachwedd 2014, ail-agorodd yr awditoriwm Art Deco (a ddefnyddiwyd i ddangos ffilmiau a darparu adloniant i'r glowyr a'u teuluoedd) ei ddrysau, gan lenwi'r gofod â cherddoriaeth a diwylliant unwaith eto. Mae'r adeilad yn cael ei drysori gan y gymuned leol, gyda rhaglen helaeth o ddigwyddiadau ar gyfer pob oed. Gyda neuadd ddawns, ystafelloedd cyfarfod ac ystafell ddigwyddiadau, maent yn cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau gan gynnwys priodasau, digwyddiadau

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

cerddoriaeth fyw, cyngherddau, dosbarthiadau, partïon, gwylnosau, cynadleddau a chyfarfodydd.

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ddigon ffodus i feddu nifer fawr o sefydliadau celfyddydol cymunedol sy'n hanfodol i godi proffil y celfyddydau, denu ymwelwyr ac incwm ychwanegol i'r Fwrdeistref Sirol a darparu elfen gymdeithasol hanfodol i gymunedau lleol trwy gyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau neu berfformio. Mae bron i 100 o grwpiau celfyddydol yn cyfarfod i ymarfer, datblygu, gwneud ac arddangos eu gwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Mae yna hefyd nifer sylweddol o weithgareddau celfyddydol cymunedol sy'n mynd o dan y radar, megis prosiectau untro mewn ysgolion, clybiau ieuentid, grwpiau pobl hŷn, cynlluniau haf, addysg oedolion a chanolfannau cymunedol.

Celfyddydau Gweledol - mae gan y celfyddydau gweledol bron i 20 o grwpiau yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cwmpasu ffotograffiaeth, cerflunwaith, paentio, ffilm, gwneud printiadau a chrefftau.

Celf gyhoeddus - mae gan lawer o drefi a phentrefi yn y Fwrdeistref Sirol ddarnau dychmygus o waith celf cyhoeddus, gan gynnwys cerfluniau, mosaigau a murluniau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio gydag ysgolion lleol, cymunedau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddatblygu a chynhyrchu gwaith celf sy'n cyfoethogi ac yn adlewyrchu hanes a diwylliant cymunedau lleol.

Mae enghreifftiau o waith celf cyhoeddus yn Nwyrain Canol y Cymoedd yn cynnwys 'Y Siartiw'r' (Pont y Siartwyr), 'Ring of Eternity' (gyferbyn â Sefydliad y Glowyr, Coed Duon), y 'Goeden Ganu' (Hall Street) a'r 'Twr Dwylo' (gyferbyn â hen siop Argos) yng Nghoed Duon; Murlun y Draphont yng Nghwm-carn a 'Lamp Haleliwa' yn Nhrecelyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae swm sylweddol o fuddsoddiad wedi canolbwyntio ar waith celf cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol, gyda thua £1.7 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau o'r fath. Mae cyllid ar gyfer y

cynlluniau hyn wedi dod oddi wrth y Cyngor, ac amrywiaeth o sefydliadau allanol, gan gynnwys arian Ewropeaidd.

Ffigur 7: Y Goeden Ganu, Coed Duon

Mae cynnwys y gymuned leol yn arwyddocâd eu treftadaeth leol yn bwysig er mwyn sicrhau ymdeimlad o le a chynyddu balchder a llesiant cymunedol.

Mae Canol y Cymoedd yn gartref i amrywiaeth eang o glybiau a chymdeithasau, gan gynnwys Brigâd y Bechgyn, Brownis, Cybiau, y Corfflu Hyfforddiant Awyr (ATC), corau, cymdeithas radio, cymdeithasau treftadaeth, grwpiau theatr, cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr, clwb bechgyn a merched, grwpiau pobl hŷn, clybiau garddio, cymdeithasau rhandiroedd a chymdeithas ffotograffau.

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fod yn ffordd dda o ddod â phob rhan o'r gymuned ynghyd a meithrin cydlyniant cymunedol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig ers dechrau'r pandemig Covid-19, ac er bod cyfarfod ag eraill wedi bod yn anodd am gyfnod sylweddol o amser, mae'r clymau sydd wedi'u creu o fewn ein cymunedau wedi golygu bod unigolion bregus wedi cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd, i fagu hyder a dysgu sgiliau newydd ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol ac i gael hwyl mewn lleoliad anffurfiol. Heb i wirfoddolwyr roi o'u hamser er budd eu cymunedau lleol, ni fyddai'r un o'r clybiau a chymdeithasau a restrir uchod yn gallu bodoli. Mae'r eglwysi a chapel niferus yn Nwyrain Canol y Cymoedd hefyd yn gartref i ymdrechion gwirfoddoli, yn enwedig darparu clybiau cinio a dosbarthu bwyd i'r rhai mewn angen. Mae yna hefyd nifer o fanciau bwyd yn Nwyrain Canol y Cymoedd sy'n darparu bwyd rhad iawn neu am ddim i'r rhai mewn angen neu ar incwm isel – mae'r rhain yn cynnwys Canolfan

Aseiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Gymunedol Markham, Cyfeillion Ysgol Gynradd Libanus, Ffordd o Fyw Libanus a Chaffi'r Ffynnon yn Argoed.

Mae manteision meddyliol a chorfforol ymarfer corff wedi'u dogfennu'n helaeth. Trwy waith caled aelodau'r gymuned, mae llawer o glybiau a thimau chwaraeon yn Nwyrain Canol y Cymoedd gan gynnwys pêl-droed, rygbi, bowls, golff, criced, karate ac athletau. Os yw cenedlaethau'r dyfodol am wireddu'r manteision iechyd o fod yn gorfforol weithgar yna mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad, yn enwedig ymhlith merched ifanc, sydd fel arfer yn rhoi'r gorau i weithgareddau chwaraeon yn eu harddegau. Gall ystod amrywiol o brofiadau plentyndod helpu i ennyn diddordeb gydol oes mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

Yn bennaf, mae tirwedd naturiol Islwyn Isaf wedi'i nodweddu gan olion y newid diwydiannol mawr a ddigwyddodd yn ardal De Cymru ar ddiwedd y 18^{fed} ganrif a dechrau'r 19^{eg} ganrif. Ceir nifer o enghreifftiau o dreftadaeth ddiwydiannol gynlluniedig, ac mae'r rhain yn darparu treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yr ardal, sy'n cael ei chydabod fwyfwy fel nodwedd unigryw'r Fwrdeistref Sirol a Chymoedd De Cymru yn ehangach. Mater allweddol o ran treftadaeth ddiwydiannol yr ardal yw ei diogelu ac, yn bwysicach fyth, cael aildefnydd buddiol o'i hadeiladau. Bydd dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cadw.

Yn Nwyrain Canol y Cymoedd ceir cyfanswm o 90 **Adeilad Rhestredig** – mae'r term hwn yn cyfeirio at adeilad neu adeiledd arall sydd wedi'i ddynodi'n swyddogol fel un ag arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol arbennig:

- Argoed – 1 x Gradd II
- Coed Duon – 14 x Gradd II ac 1 x Gradd II* (Sefydliad y Glowyr Coed Duon)
- Crymlyn - 27 x Gradd II a 5 x Gradd II* (Tŷ Weindio'r Gogledd hen Lofa Navigation; Hen Simdde Glofa Navigation; hen Wyntyllfa a Drifft Glofa

Navigation; hen Bwerdy a Thŷ Pwmpio Glofa Navigation; hen Dŷ Weindio De Glofa Navigation)

- Trecelyn – 8 x Gradd II a 3 x Gradd II* (Neuadd Goffa Gweithwyr Glofeydd Celynen; Eglwys Ein Harglwyddes Heddwch; Ffermdy Cwmdows)
- Pengam – 1 x Gradd II
- Penmaen – 8 x Gradd II
- Pontllan-fraith – 21 x Gradd II ac 1 x Gradd II* (Melin Gelligroes)

Ffigur 8: Simdde Hen Lofa Navigation, Crymlyn

Mae pedair **Heneb Gofrestredig** yn Nwyrain Canol y Cymoedd – mae'r rhain yn safleoedd o bwysigrwydd archeolegol gydag amddiffyniad cyfreithiol penodol rhag difrod neu ddatblygiad. Mae dau yn Argoed, ac un yr un ym Mhontllan-fraith a Chrymlyn.

Ffigur 9: Croes a giât fynwent, mynwent eglwys Sant Sannan, Bedwellte (Heneb Gofrestredig)

Mae pedair **Ardal Gadwraeth** yn Nwyrain Canol y Cymoedd – Gellihaf (Pontllan-fraith), Gelligroes (Pontllan-fraith), Porth Trecelyn a Phentref Oakdale. Mae'r term Ardal Gadwraeth bron bob amser yn berthnasol i ardal (trefol neu ganol pentref fel arfer) sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, yr ystyrir bod ei chymeriad yn haeddu cael ei chadw neu ei gwella.

8 Yr hyn y mae ein trigolion wedi ei ddweud wrthym

Mae barn cymunedau ar sut y defnyddir adnoddau i ddiwallu eu hanghenion yn hanfodol, er mwyn helpu i lywio'r ffordd y caiff rhaglenni a phrosiectau eu darparu o fewn ac ochr yn ochr â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae pobl yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o asesu llesiant ein hardaloedd cymunedol, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Gwent, hyd at osod yr amcanion a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant. Er mwyn casglu safbwyntiau cymunedol i gefnogi'r broses Asesu datblygwyd proses ymwneud cyson gan grŵp o weithwyr proffesiynol ymgysylltu a chyfathrebu o bob rhan o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Oherwydd yr anawsterau amlwg o ran gallu ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb oherwydd pandemig Covid-19, arolwg ar-lein oedd y prif ddull o ymgysylltu. Roedd copïau papur hefyd ar gael mewn manau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a meddygfeydd. Yn ogystal, trefnwyd dau sesiwn gweithdy ar gyfer pob un o'r pum ardal gymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, gan alluogi pobl i gyfrannu eu barn trwy drafodaethau grŵp. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r arolwg a chafodd gweithdai a grwpiau rhanddeiliaid eu rhestru i annog cymunedau a grwpiau i gymryd rhan.

Rydym wedi gallu dadansoddi barn trigolion o fewn yr ardaloedd cymunedol trwy god post a dadansoddiadau eraill, fel y gellir deall gwahanol ganfyddiadau o fewn ardal a'u cymharu â'r data yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn.

Yn Nwyrain Canol y Cymoedd, roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn byw mewn cymunedau clos a oedd yn cyd-dynnu'n gyffredinol i helpu ei gilydd ar adegau anodd. Yn dilyn y cyfyngiadau symud oedd yn gysylltiedig â Covid-19, roedd nifer o grwpiau a sefydliadau wedi sefydlu rhwydweithiau cymorth yn eu cymunedau i sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sydd ei angen. Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl bod yr ardal yn lle

deniadol i fyw ynnddi, gyda phobl sy'n dod i'r ardal yn cael croeso mawr gan gymunedau lleol.

Teimlai nifer o ymatebwyr nad oedd digon o weithgareddau neu gyfleusterau wedi'u trefnu ar gyfer pobl o bob oed. Mynegwyd awydd ganddynt i ddechrau clybiau, grwpiau neu hybiau lleol, ond cydnabuwyd bod angen cymorth arnynt i'w sefydlu. Gallai adeiladau segur gael eu hadfywio a'u rheoli gan y gymuned, er mwyn rhoi cartref i grwpiau a chynnig gweithgareddau.

Dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd fod cael mynediad at ystod eang o gyfleusterau o fewn eu cymuned yn rhywbeth arbennig iawn iddynt a bod cael mynediad cyson i glybiau cymunedol a dosbarthiadau i bobl ifanc yn bwysig iawn. Dywedodd pobl wrthym hefyd fod y cyfyngiadau a osodwyd arnynt yn ystod y pandemig wedi eu galluogi i dreulio mwy o amser yn eu hardal leol, gan helpu i amlygu'r cyfleusterau lleol sydd ar gael yn lleol.

I lawer o ymatebwyr, roedd diogelwch yn eu cymuned yn flaenoriaeth ac roeddent yn teimlo y dylid gwneud mwy i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy wella addysg a chyfleusterau, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc. Roedd mwy o oleuadau stryd yn y nos a mwy o bresenoldeb plismyn yn yr ardal hefyd yn awgrymiadau cyffredin er mwyn helpu i wneud i bobl deimlo'n fwy diogel.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod cyflymder traffig yn broblem yn eu hardal leol. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn aml yn teimlo'n anniogel gan fod traffig yn torri'r terfynau cyflymder gofynnol yn rheolaidd, gan ei gwneud yn anodd i bobl gerdded o amgylch eu cymuned leol. Pan ofynnwyd iddynt sut yr hoffent i'w cymuned edrych yn y dyfodol, dywedodd ymatebwyr wrthym y gellid defnyddio lleihau terfynau cyflymder gofynnol a chynyddu presenoldeb yr heddlu i atal goryrru ac y gallai helpu pobl i deimlo'n fwy diogel yn eu cymuned i raddau mawr.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai gwasanaethau cyhoeddus ymgysylltu'n fwy rheolaidd ar lefel gymunedol a gwella'r prosesau ar gyfer

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

cyfathrebu dwy ffordd. Roedd nifer yn awyddus i wirfoddoli a gweithio gyda darparwyr gwasanaeth er mwyn helpu i wneud eu cymunedau yn lleoedd gwell, ond roedd angen cefnogaeth ac anogaeth arnynt i wneud hynny.

Asesiad Llesiant Lleol Dwyrain Canol y Cymoedd

Cyfeiriadau

¹Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³Cofrestr Treth y Cyngor CBS Caerffili, Rhagfyr 2021

⁴Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁵Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁶Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁷Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁸Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

⁹Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

¹⁰Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru

¹¹Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹²Tabl Cyfrifiad 2011 KS204EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹³Tabl Cyfrifiad 2011 KS201EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹⁴Tabl Cyfrifiad 2011 KS209EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹⁵<https://www.zap-map.com/live/>

¹⁶MALIC 2019 Data Dangosydd Parth Mynediad i Wasanaethau, StatsCymru

¹⁷Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

¹⁸Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

¹⁹Nifer y marwolaethau a chyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddyddiad cofrestru, cyfartaledd 3 blynedd, 2017-19, Mapiau Iechyd Cymru

²⁰Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

²¹Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

²²Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru

²³Disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd i wrywod/benywod ar enedigaeth erbyn Wardiau Cyfrifiad 2011 2009 i 2013, Swyddfa Ystadegau Gwladol

²⁴Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²⁵Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

²⁶Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

²⁷Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru

²⁸Prisiau tai canolrifol fesul ward: Set Ddata HPSSA 37, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

²⁹Cyflog Crynswth Gweithwyr Llawn Amser - Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion 2021, Nomis

³⁰Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru

³¹Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru

³²Tabl Cyfrifiad 2011 KS601EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³³Tabl Cyfrifiad 2011 KS501EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³⁴Tabl Cyfrifiad 2011 KS605EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

³⁵<https://valleysregionalpark.wales/>